# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 15 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Methiant Busnesau

**C12 Elin Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch nifer cynyddol y busnesau sy'n mynd i'r wal yng Nghymru? (OAQ19365)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae'r arolygon diweddar ar fethiant busnesau yn gwrth-ddweud ei gilydd. Mae un yn dangos bod mwyfwy o fusnesau yn mynd i'r wal, ond mae'r llall, a wnaed gan Dun & Bradstreet, yn dangos bod Cymru wedi gwyro o duedd y DU gan fod i'r nifer o fethiannau gwympo ddau chwarter yn olynol. Mae gwybodaeth Dun & Bradstreet am drydydd chwarter y flwyddyn yn dangos y nifer lleiaf o fethiannau yn y trydydd chwarter ers 1998.

### Peilonau Trydan

**C13 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd y gallai peilonau trydan sy'n agos at gartrefi gynyddu risg canser mewn pobl? (OAQ19370)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael trafodaeth o'r fath. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol yn darparu cyngor i Lywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r goblygiadau dichonol a allai ddeillio o bobl yn bod yn agos i feysydd electromagnetig. Mae'r bwrdd wrthi'n diweddaru ei gyngor i'r Llywodraeth o ran y canllawiau sy'n cyfyngu ar y meysydd electrig a magnetig y gellir eu lleoli yn agos i'r cyhoedd.

### Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr ynghylch dyfodol Canolfan Ewropeaidd Cymru? (OAQ19368)

**Prif Weinidog Cymru:** Cefais i, fel Mike German, sawl trafodaeth â chydweithwyr dros y misoedd diweddar ynglŷn â chynrychioli Cymru ym Mrwsel yn y dyfodol. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Dirprwy Lywydd wedi trafod trefniadau cynrychiolaeth ym Mrwsel ar gyfer materion y Cynulliad Cenedlaethol nad ydynt yn ymwneud â'r Llywodraeth.

### Darpariaeth Band Eang

**C15 Huw Lewis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch y ffordd y mae'n cydlynu datblygiad darpariaeth band eang yng Nghymru? (OAQ19332)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyhoeddwyd, yng nghynllun gweithredu Band Eang Cymru a lansiwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, fis Gorffennaf, y byddai Uned Band Eang Cymru yn cael ei chreu a'i sefydlu yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd gan yr uned honno gyfrifoldeb dros roi cynllun gweithredu Band Eang Cymru ar waith a thros gydlynu'r ddarpariaeth o'r band eang ledled Cymru yn gyffredinol. Ni fyddai'r uned, wrth reswm, yn gallu rheoli buddsoddiadau'r sector preifat ond fe allai geisio ei annog i'w gwneud.